



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Aelodau Staff
sydd Wedi'u Cytrefu â
Staffylococws Awrëws sy'n
Gwrthsefyll
Methicillin (MRSA)
Y Tîm Atal a Rheoli Heintiau**

Mae Staffylococws Awrëws sy'n Gwrthsefyll Methicillin (MRSA) yn ficro-organeb sy'n gallu byw ar y croen lle nad yw fel arfer yn achosi unrhyw broblem h.y. mae'n "cytrefu". Fe'i ceir ymhlith y gymuned a phoblogaeth yr ysbyty.

O ganlyniad i sgrinio, canfuwyd bod MRSA yn cytrefu eich Mae'n bwysig dinistrio'r MRSA fel nad yw'n cael ei drosglwyddo i staff eraill na chleifion sy'n dueddol o ddioddef.

Bydd yr Adran Iechyd Galwedigaethol yn gyfrifol am eich gofal a byddant yn cael cyngor gan y Tîm Atal Heintiau. Mae croeso i chi gysylltu â'r naill adran neu'r llall ar unrhyw adeg, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am – 4.30pm am gyngor neu gymorth.

Nyrsys Iechyd Galwedigaethol	01633 238348 / 238351
Microbioleg ac Atal Heintiau	01633 234463
Nyrsys Atal Heintiau (YBG)	01633 238101 / 234921
Nyrsys Atal Heintiau (YNH)	01873 732048
Ysbytai Cymunedol yn cynnwys: YYF & YAB	01495 768781 / 07903 324603

Beth sy'n digwydd nawr?

- 1 Cysylltwch â'r Adran Iechyd Galwedigaethol ar gyfer sgrin corff llawn (trwyn, gwddf, perinewm/gafl)
- 2 Bydd yr Adran yn rhoi presgripsiwn i chi am driniaeth datgytrefu. Ni fydd yn rhaid ichi dalu am y presgripsiwn hwn, os byddwch yn ei gasglu o fferyllfa'r ysbyty. Bydd y driniaeth yn dibynnu ar ble mae'r MRSA:-

Trwyn 5 diwrnod o eli gwrthfotig trwyn Mupirocin (Bactroban) 3 gwaith y dydd.

Gwddf 5 diwrnod o hylif olchi ceg gwrth-septig (0.2% Chlorhexidine Gluconate) 3 gwaith y dydd.

Clwyf 5 diwrnod o eli gwrthfotig argroenol Mupirocin (Bactroban) hyd at 3 gwaith y dydd.

Gofynnir i'r holl staff sydd wedi'u cytrefu ddefnyddio Hylif Golchi Corff gydag Chlorhexidine Gluconate i olchi am 5 diwrnod. Os oes gennych groen sensitif gallwn roi dewis arall ysgafn i chi.

Gall helpu gyda'ch datgytrefu os ydych yn defnyddio fflannel glân/tafladwy bob tro y byddwch yn golchi a thywel glân bob dydd.

A fydd yn rhaid i mi roi'r gorau i weithio?

Bydd y Tîm Iechyd Galwedigaethol gyda chynghor gan y Tîm Gofal Sylfaenol Integredig yn cynnal asesiad risg a fydd yn ystyried nifer o ffactorau: y rhan o'r ysbyty yr ydych yn gweithio ynddi, lleoliad(au) eich MRSA, os ydych wedi cael unrhyw driniaeth, os ydych wedi cael MRSA o'r blaen.

Os gofynnir i chi aros i ffwrdd o'r gwaith, cewch ganiatâd am absenoldeb arbennig h.y. eithriad meddygol felly ni fydd hyn yn effeithio ar eich cofnod salwch. Bydd eich taliadau chwyddo ar gyfer oriau anghymdeithasol yn cael eu diogelu.

Beth am sgrinio?

Bydd angen tair sgrin corff llawn negyddol arnoch cyn i chi gael eich clirio. Mae'n rhaid cael y cyntaf o'r sgriniau hyn yn yr Adran Iechyd Galwedigaethol, gan ddechrau 48 awr ar ôl i chi orffen eich cwrs triniaeth. Gellir anfon yr ail a'r trydydd o'ch adran. Dylid cymryd sgriniau clirio bob wythnos. Fodd bynnag, os nad yw amser yn caniatáu hyn, gellir cymryd sgriniau heb fod yn llai na 48 awr ar wahân. Gall gostyngiad yn y cyfnod rhwng pob sgrin effeithio ar ddibynadwyedd cyffredinol y canlyniadau negyddol. Felly, dylid cynnal 4ydd sgrin wythnos yn ddiweddarach ac yna 5ed sgrin un wythnos ar ôl hynny. Gellir cofnodi eich apwyntiadau ar dudalen gefn y llyfryn hwn. Cyn gynted ag y bydd y canlyniadau'n hysbys, bydd yr Adran Iechyd Galwedigaethol yn rhoi gwybod i chi.

A all MRSA ddod yn ôl?

Gellir gofyn i chi gyflwyno sgriniau dilynol ond nid yw hyn yn ofynnol fel arfer. Mae rhai aelodau o staff wedi'u hailgytrefu yn y gorffennol. Os bydd hyn yn digwydd gallwch ailgychwyn y driniaeth. Mae'n hynod anarferol i ni fethu â chlirio MRSA yn y staff.

Cyfrinachedd

Bydd yr Adran Iechyd Galwedigaethol a'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau yn ceisio cynnal eich cyfrinachedd bob amser. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen cysylltu â'ch rheolwr i ddechrau, er mwyn cysylltu â chi. Ceisiwch gadw eich rheolwr yn ymwybodol o unrhyw gynnydd.

A fydd MRSA yn effeithio ar fy nheulu?

Fel arfer, nid yw MRSA yn achosi unrhyw broblemau i bobl iach. Os oes unrhyw un yn eich teulu yn poeni, gofynnwch iddo weld ei feddyg teulu.

Nodiadau Personol:-

APWYNTIADAU

Dyddiad	Gweithgaredd	Canlyniadau
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		
.....		

“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.